



Adroddiad Blynyddol

2019 - 2020



Dod â Choetiroedd yn Fyw

Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gymdeithas Coedwigoedd Bychain

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o dyfu, datblygu a chydweithredu. Nid yn unig rydyn ni wedi cefnogi cryn dipyn yn fwy o bobl drwy ein gwaith, ond rydyn ni wedi croesawu cynnydd mewn cyllid corfforaethol a sefydliadol, wedi meithrin y partneriaethau presennol a rhai newydd, ac wedi ehangu'n tîm staff.

Datgelodd arolwg diweddar ymysg ein cefnogwyr y prif uchelgais - sicrhau gwybodaeth a hysbysrwydd. Mae arddangosiadau ymarferol,


hyfforddiant uniongyrchol, ac yn fwyfwy, gweithgareddau ar-lein yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, bob un o'r rhain yn dangos pwysigrwydd ein cylchgrawn chwarterol Small Woods.

Mae'r Gymdeithas wedi cynnig mwy o gynor uniongyrchol i berchnogion a rheolwyr coetiroedd, wedi cynnal mwy o sesiynau iechyd a lles coetiroedd mewn cymunedau lleol, ac wedi rhannu gwybodaeth ar reoli coetiroedd yn fwy cynaliadwy

drwy hyfforddiant a digwyddiadau. Gyda'n gilydd rydym wedi tyfu fel cymuned Coedwigoedd Bychain.

Erbyn hyn, yng ngoleuni Covid-19, mae'r Gymdeithas yn addasu at yr amgylchedd newydd hwn, ac mae hyd yn oed yn fwy ymroddedig i ddarparu gwybodaeth, a meithrin coetiroedd bach i bobl a bywyd gwyllt, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


Ian Baker, Prif Weithredwr, Cymdeithas Coedwigoedd



Trosolwg o'r Cyllid

Mae cyllid Cymdeithas y Coedwigoedd Bychain yn dod o ystod amrywiol o ffynonellau. Mae ein cyllid craidd, oddi wrth ein haelodau, yn cyfateb i ryw 10% o'n hincwm, a phrosiectau yw'r categori unigol mwyaf, yn cael eu cyllido gan dros 20 o gyllidwyr ar wahân. Mae incwm o gyrsiau hyfforddi hefyd yn bwysig iawn ac mae'n cael ei bennu ar lefel i sicrhau bod y cyrsiau'n talu eu costau hyd yn oed mewn cyfnod arferol (er bod Covid-19 yn debygol o arwain at golled yn y maes hwn).

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'n cefnogwyr corfforaethol, sy'n cael sylw ar y dudalen gefn. Mae eu cefnogaeth nhw o fudd anhygoel i waith y Gymdeithas ac yn ein galluogi i ddarparu'r ystod o wasanaethau a gynigiwn.



- Ymddiriedolaethau elusennol
- Grantiau a ariennir gan y Loteri
- Aelodaeth
- Grantiau awdurdodau lleol
- Cyrsiau hyfforddi
- Grantiau'r Llywodraeth
- Rhoddion
- Rhent
- Gwerthu cynhyrchion
- Gwerthiannau cyffredinol
- Amrywiol

20

o ddigwyddiadau
i aelodau
gyda

168

o bobl yn
bresennol



12

e-gylchlythyr i'r
aelodau

4

cylchgrawn i'r
aelodau

3

phrosiect ymchwil
ôl-raddedig



Tua

10,000

o gefnogwyr a dilynwyr
yn y cyfryngau
cymdeithasol

7

o brosiectau iechyd
a lles coetiroedd yn
cefnogi

862

o bobl



96

o aelodau wedi
cael cyngor drwy'r
e-bost neu dros y
ffôn

2

o brentisiaethau
wedi'u cwblhau

600ha

o goetiroedd bychain yn cael
eu rheoli'n uniongyrchol
gan y Gymdeithas
Goedwigoedd
Bychain

29,410ha

o goetir yn cael eu
cynrychioli



31

o brosiectau
ledled y DU

84

o gyrsiau
hyfforddi

410

wedi'u hyfforddi
mewn sgiliau
coetir a chrefftau
traddodiadol

*Mae'r mathau o gymorth yn cynnwys sesiynau iechyd a lles, cyngor ac chanllawiau ar reoli coetiroedd, hyfforddiant, arddangosiadau a digwyddiadau. Mae'r cymorth yn amrywio o ran hyd a dwyster o awr i wythnosau neu fisod.

“

Dwi wedi bod yn darllen y cylchlythyrau'n frwd, a dwi wrth fy modd â'r wybodaeth a'r cysylltiad â'r gymuned ehangach sy'n dod yn sgil ein haelodaeth ni. Diolch i chi i gyd.

Aelod y Gymdeithas
Coedwigoedd Bychain

“

Roedd y tiwtoriaid i gyd yn rhagorol a chafodd y sesiynau eu cyflwyno gyda chymysgedd gwych o wybodaeth, realaeth a hiwmor. Fe ges i fy ysbrydoli'n llwyr!

Aelod o Gwrs Rheoli
Coetiroedd Cynaliadwy

“

Mae fy llesiant meddyliol i wedi gwella'n fawr. Dwi'n edrych ymlaen at y grŵp wythnosol ac mae e wedi helpu i guro unigrwydd. Mae'n fy annog i wneud gweithgareddau newydd yn yr awyr agored.

Aelod Coed Actif Cymru
Carmarthenshire

Diolch i'n cyllidwyr a'n noddwyr

WESLEYAN
we are all about you



Obōz
FOOTWEAR



Department for Environment,
Food & Rural Affairs
National Lottery Community
Fund/European Social Fund
Ernest Cook Trust
Active Inclusion Fund (WCVA)

Banister Trust
Regenerate Neath Port Talbot
LEADER Programme
Tesco Bags of Help
Lady Forester Trust
Stonewall Charitable Trust

Veolia Environgrant
European Regional Development
Fund
idverde Community Grant
Merthyr Primary Care Cluster